

Olrhain y rhan a chwaraeodd eich perthnasau yn y Rhyfel Byd Cyntaf

© National Library of Wales © Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Mae nifer o sefydliadau yng Nghymru a all eich helpu i ddarganfod mwy am y rhan a chwaraeodd eich perthnasau yn y rhyfel.

Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd

Gall amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol eich helpu i olrhain perthnasau a chwaraeodd ran yn y rhyfel. Yn aml bydd archifau'n cydweithio â chymdeithasau hanes lleol a theuluol i drefnu data lleol am achau, a gallent gael gafael ar gofnodion genedigaethau, priodasau a marwolaethau. Mae'n bosibl y bydd gan amgueddfeydd wybodaeth ac eitemau yn eu casgliadau, sy'n ymwneud â'r rhan a chwaraeodd pobl leol yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae map sy'n dangos llyfrgelloedd yng Nghymru ar gael ar wefan Llyfrgelloedd Cymru: www.welshlibraries.org/cy

Efallai y bydd llyfrgelloedd ac archifau hefyd yn gallu darparu mynediad yn rhad ac am ddim i gofnodion milwrol ar-lein, y mae'n rhaid talu fel rheol i gael mynediad iddynt, er enghraifft ar

www.ancestry.com

www.findmypast.co.uk a

www.genesreunited.com

Mae'r gwefannau hyn yn cynnig mynediad i amrywiaeth o gronfeydd data ynghylch achau ac amrywiaeth o gofnodion milwrol, megis cofrestrau catrodol, cofnodion marwolaethau, colledion, pensiynau a charcharorion rhyfel, a chofnodion ynghylch medalau a gyflwynwyd am ddangos dewrder neu gosbau a roddwyd am gamymddwyn.

Gellir cael gafael ar ragor o wybodaeth am amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru ar y gwefannau canlynol:

www.cymru.gov.uk/cymal

www.welshmuseumsfederation.org

www.archiveswales.org.uk

Cofebau a mynwentydd

Caiff gwybodaeth am y sawl a fu farw yn y rhyfel ei darparu hefyd ar gofebau ac mewn mynwentydd, yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Mae gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad www.cwgc.org, sy'n gofalu am fynwentydd a chofebau rhyfel mewn dros 150 o wahanol wledydd, gronfa ddata ar-lein o'r milwyr sydd wedi'u claddu mewn mynwentydd ledled y byd, ac mae'n golygu bod modd gweld ble mae beddau ymhell dros filiwn o ddyinion a menywod a fu'n gwasanaethu yn y rhyfel.

Caiff cronfa ddata o gofebau rhyfel yn y Deyrnas Unedig – yr Archif Cofebau Rhyfel www.ukniwm.org.uk – ei chynnal gan yr Imperial War Museums. Credir bod dros 100,000 o gofebau rhyfel yn y Deyrnas Unedig, ac mae angen gofalu am bob un ohonynt a'u cynnal a'u cadw. Mae'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel, www.warmemorials.org, yn gweithio i warchod y cofebau hyn, a gall roi grantiau i bobl sy'n gofalu am gofebau rhyfel sy'n bodoli eisoes.

Prosiectau digideiddio

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrthi'n digideiddio llwyth o ddogfennau gwreiddiol sy'n sôn am y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig. Beth am rannu eich ymchwil gyda ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

www.cymru1914.org

Mae'r dogfennau'n cynnwys deunydd archifol a deunydd print, megis papurau newydd y cyfnod, recordiadau sain, cyfnodolion, ffotograffau, archifau a llawysgrifau.

Mae'r eitemau gwreiddiol yn deillio o gasgliadau preifat a chyhoeddus, gan gynnwys casgliadau BBC Wales, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgolion Cymru ac amgueddfeydd ac archifau Cymru.

Gwefan Cymru'n Cofio

Mae llawer o sefydliadau'n trefnu prosiectau a digwyddiadau arbennig drwy gydol y cyfnod coffáu. Cymerwch gip ar y tudalennau sydd ar ein gwefan ar gyfer prosiectau a digwyddiadau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd ar y gweill yn eich ardal chi:

www.cymruncofio.org

**CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918**

Y RHYFEL BYD CYNTAF

HAFAN NEWYDDION DIGWYDDIADAU PROSIECTAU PARTNERIAID CEFNDIR

**BYDDWN YN NODI CANMLWYDDIANT Y
RHYFEL BYD CYNTAF O 2014 YMLAEN**

Mae'r safle hwn yn darparu newyddion, gweithgareddau a gwybodaeth ar goffad y canmlwyddiant yng Nghymru

“ Bu'r cyfnod rhwng 1914 a 1918, a'r blynyddoedd yn union wedi hynny, yn gyfrifol am siopio'r Gymru rydyn ni'n byw ynddi heddiw. Mae angen i ni ddeall y rhesymau pam yr aeth cenedloedd i ryfel ond mae angen gwerthfawrwi hefyd beth oedd effaith y rhyfel hwnnw, sy'n dal i'w gweld ar ein bywydau bob dydd.

Y Gwir Anrhydeddas Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru

Castell San Ffagan, Rhyfel Byd Cyntaf
Amgueddfa Cymru

Chyfryngau cymdeithasol

Beth am rannu eich ymchwil gyda ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol:



@walesremembers @cymruncofio



Cymru'n Cofio Wales Remembers
1914-1918

Sicrhewch eich bod yn cael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau yng Nghymru drwy gydol y cyfnod coffáu a fydd yn para pedair blynedd, ac ymunwch yn y sgwrs er mwyn sôn wrthym am sut yr ydych chi'n cymryd rhan.